Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad yn dilyn monitro

Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant Sylweddol

Ysgol Bro Hyddgen

Machynlleth
Powys
SY20 8DR

Dyddiad yr ymweliad: Ebrill 2026

gan

Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Bro Hyddgen wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1 Mynd i'r afael â'r materion diogelu a adnabuwyd yn ystod yr arolygiad

Ers yr arolygiad craidd, mae uwch arweinwyr wedi cydweithio'n agos a chynhyrchiol â'r awdurdod addysg lleol er mwyn cryfhau trefniadau diogelu a gwella diogelwch y safleoedd. Bellach, mae ffensys diogelwch addas o amgylch yr holl safle uwchradd a'r holl safle cynradd. Mae trefniadau goruchwylio yn briodol, gan gynnwys prosesau i dderbyn disgyblion ar ddechrau'r diwrnod a'u gollwng ar ddiwedd y dydd. Mae trefniadau hyfforddiant statudol yn addas ac mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau i amddiffyn a diogelu plant a sut i rannu pryderon gydag arweinwyr dynodedig. O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, mae trefniadau diogelu bellach yn foddhaol ac nid ydynt yn destun pryder.

### A2 Gwella presenoldeb

Mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n briodol ar wella presenoldeb ers adeg yr arolygiad craidd. Mae trefniadau olrhain presenoldeb wedi cryfhau, gan gynnwys rhoi ffocws agosach ar bresenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion. Ceir trefniadau priodol i gefnogi lles disgyblion sy'n absennol yn barhaus, gan gynnwys cydweithio ag asiantaethau allanol perthnasol. Mae staff yn hyrwyddo pwysigrwydd dod i'r ysgol trwy sesiynau cofrestru boreol, gwasanaethau ac yn ystod trafodaethau mewn gwersi. Rhennir cyfraddau presenoldeb gyda phob disgybl yn wythnosol a rhoddir cynllun cefnogi addas ar waith i unigolion sy'n peri pryder. Ceir systemau gwobrwyo pwrpasol er mwyn annog a chefnogi presenoldeb da. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i wella agweddau o bresenoldeb disgyblion ymhellach, gan gynnwys presenoldeb disgyblion oed uwchradd. Nid ydynt bob amser yn monitro cyfraddau presenoldeb grwpiau penodol yn ddigon rheolaidd er mwyn caniatáu iddynt adnabod patrymau yn amserol a rhoi strategaethau cefnogi ar waith.

O ganlyniad i gryfhau'r gweithdrefnau, mae presenoldeb ysgol gyfan wedi gwella o'i gymharu ag adeg yr arolygiad craidd. Mae presenoldeb disgyblion oedran cynradd ac uwchradd wedi codi'n flynyddol ers 2022/2023 ond mae'r gyfradd gwella ar gyfer disgyblion oedran uwchradd wedi bod yn arafach. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i ginio am ddim wedi gwella rhwng 2022/2023 a 2024/2025. Mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf.

Mae data heb ei wirio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol (2025/2026) yn dangos cynnydd pellach ym mhresenoldeb disgyblion oedran cynradd ond nid yw presenoldeb disgyblion oedran uwchradd wedi gwella. Er bod cyfraddau presenoldeb disgyblion oedran cynradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella eto eleni, mae presenoldeb disgyblion oedran uwchradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gostwng yn sylweddol o'i gymharu â'r un adeg yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf. At ei gilydd, mae cyfradd y cynnydd yn parhau'n rhy araf ac nid yw'r strategaethau diweddar wedi cael digon o effaith.

## A3 Gwella ansawdd yr addysgu

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi darparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pwrpasol yn fewnol a gan ddarparwyr allanol i wella agweddau ar addysgu. Maent wedi sefydlu disgwyliadau ac egwyddorion cytunedig ar gyfer gwersi ar draws yr ystod oedran. Cyflwynwyd strategaethau newydd yn ogystal â manteisio ar arfer dda oedd yn bodoli. Mae hyn wedi arwain at well cysondeb a gwelliannau yn yr addysgu o'i gymharu ag adeg yr arolygiad.

At ei gilydd, mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn. Maent yn defnyddio terminoleg a geirfa bynciol yn gywir ac yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn modelu iaith yn effeithiol, yn aml yn ddwyieithog. Mae'r athrawon hyn yn atgyfnerthu geirfa bynciol yn gyson sy'n cefnogi dealltwriaeth disgyblion ac yn gymorth iddynt wneud cynnydd boddhaol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion. Maent yn creu awyrgylch waith gynhyrchiol a chefnogol tra'n cadw rheolaeth ddosbarth effeithiol gyda threfniadau clir a chyson. Mewn ychydig iawn o achosion, mae brwdfrydedd heintus athrawon yn cael effaith gadarnhaol iawn ar agweddau disgyblion. Mae ychydig iawn o athrawon yn ei chael yn anodd rheoli dosbarth er, ar y cyfan, mae disgyblion yn gwrando'n briodol ac yn cyfrannu'n addas i'r wers.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio'n ofalus ac yn rhoi ystyriaeth briodol i'r hyn maent am i ddisgyblion ei ddysgu. Maent yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol i gefnogi medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac yn annog trafodaeth. Defnyddir adnoddau deniadol a chyfredol. Mewn ychydig o achosion, mae gwersi'n cael eu gor-reoli a'r athrawon yn symud ymlaen yn rhy gyflym rhwng tasgau, heb wirio na dyfnhau dealltwriaeth y disgyblion. Yn ogystal, nid ydynt yn rhoi cyfle addas iddynt gysylltu na chrynhoi'r dysgu blaenorol. Mewn

ychydig o achosion, mae athrawon yn modelu gwaith da yn effeithiol. Serch hyn, yn gyffredinol, nid yw athrawon yn modelu ac esbonio yn ddigon manwl. Mewn rhai achosion, mae gormod o ddibyniaeth ar daflenni gwaith.

Mae llawer o athrawon yn diwallu anghenion disgyblion unigol yn briodol. Rhoddir cefnogaeth addas i ddisgyblion yn ystod gwersi a defnyddir adnoddau fel banciau geirfa yn effeithiol yn y mwyafrif o achosion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn bodloni anghenion unigolion yn gyson ar draws pob dosbarth.

Mae llawer o athrawon yn holi'n effeithiol i wirio dealltwriaeth. Mae strategaethau fel 'dim dwylo i fyny' a 'troi a thrafod' wedi gwreiddio ac yn cael eu defnyddio'n dda. Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar sensitif ac adeiladol, gan gylchu'r dosbarth i gefnogi'r dysgu yn effeithiol. Nid yw holi bob tro'n ddigon treiddgar i ymestyn meddwl a dyfnhau dealltwriaeth disgyblion ac nid yw ymatebion disgyblion yn cael eu defnyddio'n ddigon effeithiol i asesu dealltwriaeth.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig clir a defnyddiol ar waith disgyblion. Defnyddir strategaethau ysgol gyfan fel 'pinc perffaith' a 'melyn meddwl' yn gyson i adnabod gwaith da a beth sydd angen ei wella. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i sylwadau'r athro ac yn gwella eu gwaith. Serch hynny, nid oes cysondeb llawn ar draws pynciau ac nid yw gwallau iaith a sillafu yn cael eu cywiro'n ddigon cyson.

## A4 Cryfhau'r arweinyddiaeth strategol a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi ymateb yn gadarnhaol drwy gryfhau capasiti arweinyddiaeth y medrau, yn enwedig trwy benodi arweinwyr llythrennedd a rhifedd newydd ac adnabod staff allweddol i'w cefnogi. Mae'r arweinwyr hyn, ynghyd â'r cydlynydd cymhwysedd digidol, yn dangos ymrwymiad cryf ac yn deall eu rolau yn dda ac wedi elwa o gydweithio ac ymweld ag ysgolion eraill.

Mae arweinwyr wedi sefydlu sylfeini cadarn ar gyfer gwella drwy nodi blaenoriaethau clir. Maent yn gwneud hyn yn synhwyrol trwy ystyried llinynnau penodol o'r medrau gwahanol yn eu tro. Mae cyfraniad arweinwyr perthnasol i brosesau hunanwerthuso'r ysgol bellach wedi'i sefydlu'n gadarn.

Mae arweinwyr wedi datblygu ystod o adnoddau defnyddiol i gefnogi staff. Mae hyn yn cynnwys gwefan gynhwysfawr gyda phortffolio o waith disgyblion sy'n dangos dilyniant yn y medrau ar draws yr ystod oedran. Mae'r rhain yn cyfrannu'n gadarnhaol at gryfhau ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion gan gyflwyno disgwyliadau clir a strategaethau cytûn ar draws yr ysgol. Mae hyfforddiant ac arweiniad pwrpasol wedi cynorthwyo staff i ddeall eu cyfrifoldeb am ddatblygu medrau llythrennedd o fewn eu meysydd. Mae mentrau i gryfhau llafaredd fel 'Cynllun Clonc' i gefnogi'r disgyblion ieuengaf, ynghyd â strategaethau cytûn ysgol gyfan 'Gofynion Glyndŵr' ar gyfer datblygu ysgrifennu estynedig, yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r meysydd nesaf sydd angen sylw.

Mae arweinwyr wedi blaenoriaethu datblygu medrau rhifedd yn briodol, gan ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth mewn rhai meysydd penodol. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth athrawon o sut i gynllunio cyfleoedd rhifedd pwrpasol, yn enwedig wrth ddefnyddio data, graffiau a diagramau. Mae gweithgareddau rhif boreol, ynghyd â rhannu arferion effeithiol, yn cefnogi datblygiad parhaus medrau rhifedd disgyblion yn dda.

Mae trefniadau addas ar waith i gefnogi disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan. Mae staff yn gwneud defnydd cynyddol o wybodaeth am gynnydd disgyblion er mwyn cynllunio ymyraethau, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd buddiol dros amser.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion wedi gwella'n briodol. Mae arweinwyr yn cynllunio'n gynyddol fwriadus ac yn cydweithio'n effeithiol â staff i adnabod cyfleoedd dysgu pwrpasol. Mae hyfforddiant penodol yn cefnogi dealltwriaeth staff ac yn cynyddu eu hyder i gyflwyno gweithgareddau digidol ar draws y cwricwlwm. Mae hyn, yn ei dro, yn dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar fedrau'r disgyblion.

## A5 Sefydlu trefniadau rheolaeth llinell cadarn a chyson er mwyn sicrhau bod arweinwyr yn dwyn staff yn atebol am eu gwaith ac yn rhoi ystyriaeth lawn i ddatblygiad disgyblion mewn ysgol bob oed

Mae arweinwyr wedi cryfhau trefniadau rheolaeth llinell yn effeithiol. Maent yn cynnal cyfarfodydd cyswllt rheolaidd sy'n gosod disgwyliadau clir ac yn sicrhau lefel briodol o atebolrwydd. Rhoddir pwyslais cynyddol ar flaenoriaethau strategol yr ysgol, gyda ffocws mwy penodol ar ddeilliannau disgyblion. Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol, fel gwaith disgyblion, i lywio trafodaethau. Pennir camau gweithredu clir sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r arfer o ailymweld â materion blaenorol yn cryfhau atebolrwydd ac yn arwain at welliannau mewn agweddau o'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn diweddaru polisïau gweithredol yn fwriadus i sicrhau bod gwelliannau diweddar i'r addysgu yn dod yn rhan annatod o'r ddarpariaeth.

Mae llywodraethwyr yn herio arweinwyr yn gynyddol effeithiol. Trwy eu hymweliadau rheolaidd a'u cyfranogiad mewn gweithgareddau gwerthuso, maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r ysgol. Mae eu hymgysylltiad uniongyrchol â

disgyblion trwy weithgareddau craffu a holi yn eu galluogi i gynnig cymorth a her mwy pwrpasol i arweinwyr.

Mae'r ysgol wedi adolygu ac ailstrwythuro rolau arwain ar bob lefel, gan gynyddu'r pwyslais ar gyfrifoldebau ar draws yr ystod oedran. Mae arweinwyr yn cydweithio'n fwy effeithiol ar draws y campysau, gyda chyfleoedd rheolaidd i rannu arferion a chryfhau cysondeb yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad aelodau o'r uwch dîm i gefnogi rheolaeth dydd i ddydd ar draws y lleoliadau a chyfleoedd gwerthfawr i arweinwyr canol werthuso'r ddarpariaeth. Mae cydweithio cynyddol rhwng staff y campysau cynradd ac uwchradd yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar rai agweddau, er enghraifft cysondeb yn ansawdd yr addysgu. Yn ogystal, mae dilyniant mwy effeithiol yn natblygiad medrau disgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol yn dechrau gweithredu'n bwrpasol fel ysgol pob oed.

## A6 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant gan roi sylw clir i effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion, ynghyd â'r cynnydd a wnânt yn eu dysgu a'u medrau

Mae arweinwyr wedi datblygu diwylliant agored o fyfyrio a hunanwerthuso trwy ystod dda o weithgareddau pwrpasol rheolaidd. Rhoddir sylw addas i'r meysydd dysgu a phrofiad ac i'r holl ystod oedran. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cyfrannu'n bwrpasol at y gweithdrefnau hyn, gyda phwyslais clir ar ddosrannu cyfrifoldebau i arweinwyr canol a chryfhau atebolrwydd am ansawdd eu gwaith. Mae uwch arweinwyr yn gwarantu ansawdd gwerthusiadau arweinwyr canol, gan gynnig adborth defnyddiol i gefnogi eu datblygiad proffesiynol a'u herio'n briodol.

Mae arweinwyr wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng gwahanol weithgareddau monitro, gan gynnwys arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a gwrando ar eu barn. O ganlyniad, mae'r prosesau gwerthuso bellach wedi'u seilio'n fwy cadarn ar dystiolaeth uniongyrchol ac yn cynnig darlun mwy cyflawn a chywir o ansawdd y ddarpariaeth a'i heffaith ar ddisgyblion.

Dros amser, mae gweithgareddau craffu ac arsylwi wedi dechrau canolbwyntio'n fwyfwy ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a deilliannau disgyblion. Mae gwelliant graddol yn y ffocws hwn wrth i arweinwyr ymgyfarwyddo â disgwyliadau. Er bod anghysondebau'n parhau yn ansawdd rhai gwerthusiadau, yn gyffredinol, mae arweinwyr yn llunio casgliadau priodol ac yn dangos dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion.

Mae prosesau cynllunio ar gyfer gwella wedi'u miniogi. Mae arweinwyr yn adnabod camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella. Maent yn dechrau blaenoriaethu yn strategol, ac yn dechrau ystyried capasiti staff i weithredu disgwyliadau newydd yn synhwyrol. Wrth gynllunio ar gyfer gwella, ceir pwyslais cynyddol ar ddeilliannau disgyblion, er nad yw meini prawf llwyddiant bob amser yn ddigon penodol o ran yr hyn y

dylai disgyblion ei gyflawni yn sgîl newidiadau. Mae arweinwyr yn rhoi sylw clir i agweddau disgyblion at ddysgu a'u parodrwydd i ymgysylltu mewn gwersi. Yn yr arferion gorau, maent yn ystyried yn ofalus i ba raddau mae disgyblion yn datblygu medrau allweddol a dealltwriaeth bynciol yn briodol.

Mewn ychydig o achosion, mae'r gwerthusiadau'n llai defnyddiol gan eu bod yn canolbwyntio'n ormodol ar gydymffurfiaeth staff â gofynion darpariaeth, yn hytrach nag ar yr effaith ar ddysgu a chynnydd disgyblion.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.